

Area 43

Gwybodaeth, Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chwrsela i Bobl Ifanc
Information, Training, Support & Counselling for Young People

Independent Counselling Service



0800 0385778

01239 614566

area43.co.uk

counselling@area43.co.uk

1 Pont Y Cleifion
Cardigan, Ceredigion SA43 1DW

GWYBODAETH CWNSELA I STAFF YSGOLION GAN AREA 43

Mae cwrsela yn cefnogi iechyd emosiynol y disgybl sy'n tanategu llwyddiant academiaidd yn hwyluso adeiladu a rheoli perthnasau defnyddiol mewn amgylchedd ysgol. Yng nghalon y gwasanaeth ydy cwrsela un i un, cyfrinachol, therapiwtig sy'n cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion.

Nodwch os gwelwch yn dda na ddylai'r person ifanc gael ei gwestiynu am y sesiynau mae e wedi eu mynychu. Efallai na fydd pobl ifanc eisiau i'w grŵp cyfoedion wybod (am nifer o wahanol resymau) eu bod yn gweld cwrsler ysgol. Rhaid ystyried yn ofalus i'r rheolaeth o sut bydd y person ifanc yn derbyn gwybodaeth, yn cael ei siarad am gwrsela ac yn cael ei esgusodi o'r gwrsi i fynychu'r sesiynau cwrsela yn synhwyrol.

Plis a wnewch chi ystyried y materion canlynol pan rydych yn cyfeirio disgybl i'w gwrsela:

1. Beth ydych resymau dros y cyfeiriad?
2. Beth sydd wedi cael ei geisio'n barod a beth yw'r ymateb gan y person ifanc?
3. Sut mae'r disgybl yn gweithredu yn yr ysgol? (Yn academiaidd, yn gymdeithasol, a sut mae'n ymddwyn)
 - a. Pa mor eithafol yw'r ymddygiad neu agwedd?
 - b. Pa mor hir neu barhaus ydyw?
 - c. Pa mor sydyn yw'r newid?
 - d. A ydych pryderon yn cael eu rhannu gan aelodau arall o'r staff?
 - e. Sut mae'r ymddygiad yn effeithio aelodau eraill o'r gymuned yn yr ysgol?
4. Sut yr ydych yn disgwyl i gwrsela helpu'r disgybl yma?
5. A ydy'r disgybl wedi ei ymgynghori'n llawn am ei gyfeiriad ac wedi derbyn gwybodaeth am gwrsela?
6. A ydy'r person ifanc wedi ei ymgynghori am bun ai neu beidio y bydd ei rieni yn cael gwybod am y cwrsela arfaethedig?
7. A oes unrhyw wybodaeth yn ymwneud â chefnidir y teulu neu ymglymiad asiantaethau eraill, a fedrai fod o ddefnydd?

Yn Gweithio mewn Partneriaeth gyda
Working in Partnership with



Elusen Gofrestredig | Charity Reg- 1181959

Area 43

Gwybodaeth, Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chwmsela i Bobl Ifanc
Information, Training, Support & Counselling for Young People

Independent Counselling Service



0800 0385778

01239 614566

area43.co.uk

counselling@area43.co.uk

1 Pont Y Cleifion
Cardigan, Ceredigion SA43 1DW

Gall rhai arwyddion cyffredin am gyfeiriad i gwmsela gynnwys:

- Safon gwaith yn syrthio'n ddramatig
- Dod yn isel neu'n or-gyffrous
- Newidiadau sydyn, hwyliau ansad amlwg a/neu ymddygiad sy'n ymddangos allan o gymeriad a/neu'n eithafol.
- Ysgol yn gwrthod
- Y rheiny sy'n bwlio eraill a'r rheiny sy'n ddiodefwr oherwydd bwlio (yn cynnwys bwlio seibir a negeseuon testun rhyw)
- Plant a Phobl Ifanc sydd wedi neu a ddrwgdybir o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, corfforol neu'n emosiynol
- Yn cael anawsterau oherwydd teulu'n chwalu
- Camdriniaeth ddomestig yn eu cartref
- Cyfrifoldebau gofal
- Anawsterau/ perthnasau cylch cyfoedion
- Mewn profedigaeth neu wedi dioddef colled neu wahaniad
- Hunan-barch isel
- Hunan-niwed e.e. torri
- Camddefnydd o alcohol a chyffuriau
- Materion Trawsryweddol

Efallai y byddai o gymorth i drafod unrhyw bryderon gyda chwmsler i egluro'r ffordd fwyaf addas ymlaen.

Unwaith bod aelod o staff ysgol yn glir bod cyfeiriad yn briodol, dylent gysylltu gydag aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dros wneud cysylltiad â'r gwasanaeth chwmsela; byddai hyn fel arfer yn Brifathro (mewn Ysgolion Cynradd). Mae'r angen am ddisgresiwn a chyfrinachedd fod dan sylw cymaint â phosib a pharch i hawl y person ifanc i breifatrwydd.

Mae'n hanfodol bod y sesiynau chwmsela'n wirfoddol ac yn gyfrinachol, oherwydd i ddisgybl mae'n fodd o gefnogaeth ac nid yn fesur disgyblu. Dylid gwneud yn glir mai cyfle i siarad am broblemau a phryderon yw hyn gyda'r nod o ddatrys neu reoli hwy yn haws. Mae'r sesiwn gyntaf yn gyfle i gwmsler a chleient i benderfynu pun ai a ydynt am gymryd rhan mewn chwmsela neu beidio.

Efallai y byddwch yn ei darganfod hi'n ddefnyddiol i ddefnyddio taflen 'Gwybodaeth Cwmsela Area 43 i Blant a Phobl Ifanc' pan fyddwch yn siarad gyda'ch plentyn am y syniad o gwmsela. Mae'n ei helpu hwy i ddeall beth mae hyn yn ei olygu a bod hyn yn normal ac yn ddull arferol o gefnogi plant a phobl ifanc a allai fod yn wynebu amserau anodd. Mae'r gofal sy'n digwydd gyda hyn yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i ba un ai a ydynt yn mynychu eu hapwyntiad cyntaf neu beidio, neu sut maent yn ymdrin â hyn.

Yn Gweithio mewn Partneriaeth gyda
Working in Partnership with



Elusen Gofrestredig | Charity Reg-- 1181959

Area 43

Gwybodaeth, Hyfforddiant, Cefnogaeth a Chwrsela i Bobl Ifanc
Information, Training, Support & Counselling for Young People

Independent Counselling Service



- 0800 0385778
01239 614566
- area43.co.uk
- counselling@area43.co.uk
- 1 Pont Y Cleifion
Cardigan, Ceredigion SA43 1DW

Pan maent yn hysbysu eu rhieni, a wnewch chi gynnig ffurflen 'Gwybodaeth Cwrsela Area 43 i Rieni a Gofalwyr' gall y plentyn neu berson ifanc fynd a hi adre neu ei hanfon adref. Yn y mwyafrif o achosion, ar gyfer plant ysgol gynradd, byddai angen caniatâd ysgrifenedig gan y rhiant/ gofalwr cyn gall cwrsela ddigwydd.

Canllaw BACP

Mae pob cwrsler Area 43 yn cyflwyno gwasanaeth yn unol â 'Ethical Framework for Good Practice' gan y British Association for Counselling and Psychotherapy (BACP).

Dulliau Gweithredu Gwarchod Data

Mae Area 43 yn cydymffurfio â holl reoliadau Gwarchod Data ac Amddiffyn Plant & Diogelu cyfoes. Caiff gwybodaeth am yr holl waith cwrsela sy'n cael ei wneud gan ein staff ei gadw'n ddiogel gan y Gwasanaeth Cwrsela; nid yw Area 43 yn dal gwybodaeth y byddai modd adnabod unigolion, ond fe allai cyfrinachedd ei dorri pe fyddai pryderon am Amddiffyn Plant yn cael eu hadnabod.

Gwerthusiad

Wedi i'r cwrsela gorffen, caiff eich plentyn ffurflen gwerthuso y gall ei llenwi'n gwbl anhysbys a'i dychwelyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Cwrsela'n uniongyrchol heb i'w cwrsler weld beth maent wedi ei ysgrifennu. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ni pa mor dda yr ydym yn helpu'r plant a'r bobl ifanc yr ydym yn eu gweld.

Canmoliaethau neu Gwynion

Os yr ydych yn dymuno mynegi canmoliaethau yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cwrsela Annibynnol ar Sail Ysgolion, neu os oes unrhyw achos o gwyn, mae croeso i chi neu eich plentyn gysylltu â'r Cwrsler neu Reolwr Gwasanaeth Area 43 a fydd yn ceisio datrys unrhyw faterion o bryder.

Os ydych wedi darllen y wybodaeth yma, neu mae gennych fwy o gwestiynau, yna cysylltwch â Rheolwr Gwasanaeth Cwrsela yn Area 43

Yn Gweithio mewn Partneriaeth gyda
Working in Partnership with

